

Eplontersen ar gyfer trin amyloidosis etifeddol sy'n gysylltiedig â transthyretin

27 Tachwedd 2024

Mae eplontersen (Wainzua) ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer amyloidosis cysylltiedig â thrawsthyretin etifeddol mewn oedolion â pholyniwropathi cam 1 neu gam 2.

A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwranddo'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os byddwch yn dymuno. Gweler [ein tudalen we ar wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-ffeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

Gwybodaeth a chymorth

Gall [tudalen we y GIG ar amyloidosis](#) fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [Amyloidosis UK](#), info@amyloidosisuk.org
- [Cynghrair Geneteg y DU](#), 0300 124 0441
- [Gene People](#), 0800 987 8987

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm [Healthwatch](#) lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

© **NICE 2026**. All rights reserved. Subject to [Notice of rights](#).

ISBN: 978-1-4731-9484-7